Welsh Dyslexia Project
Prosiect Dyslecsia Cymru

RHIFYN 1

CHWEFROR 2009

NEWYDDLEN GWIRFODDOLWYR

SCOTT QUINNELL YN CEFNOGI'R LLINELL GYMORTH

Mae croeso i rieni sy'n pryderu a yw eu plant yn ddyslecsig ai peidio ffonio'r llinell gymorth i gael gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
Bydd gwirfoddolwyr cefnogi'r llinell gymorth, sydd wedi'u hyfforddi'n llawn, yn gallu darganfod y tebygolrwydd o dueddiadau dyslecsia drwy ofyn rhai cwestiynau penodol a rhoi cyngor cychwynnol yn seiliedig ar yr hyn y buont yn ei drafod dros y ffôn. Er mai bwriad y prosiect yw helpu unrhyw deulu lle gallai dyslecsia fod yn ffactor, maent yn hynod awyddus i gael cyswllt gyda rhieni sy'n siarad Cymraeg sy'n credu bod eu plentyn yn dioddef o'r cyflwr.
Dywedodd Scott Quinnell, noddwr Prosiect Dyslecsia Cymru: "Mae'n biti na fyddai sefydliad o'r fath wedi bodoli pan roeddwn i yn yr ysgol i helpu rhieni plentyn oedd â dyslecsia.
"Bydd llinell gymorth Prosiect Dyslecsia Cymru yn ddull gwerthfawr o gefnogaeth i lawer o bobl nad ydynt yn gwybod lle mae posib iddyn nhw gael cyngor am ymdrin â dyslecsia.
"Mae rhieni angen sicrwydd bod rhywun ar gael ar ben arall y ffôn bob amser pan fyddant angen cymorth.
"Hoffwn ganmol Prosiect Dyslecsia Cymru, a phawb sydd ynghlwm wrth weithredu hyn."

(Dyfyniad o Ddatganiad i'r Wasg i bapurau newydd yn ddiweddar)

Michael Davies, Prif Weithredwr (gwirfoddol); Glenda Jones, Loteri Fawr – Cymru; Scott Quinnell, Noddwr Prosiect Dyslecsia Cymru; Y Tad Paul Mackness Cadeirydd

HEFYD YN Y RHIFYN HWN

Mae PDC wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal ac oherwydd hynny, mae'n rhaid i ni gadw cofnod o'r amrywiaeth o bobl sy'n gwirfoddoli i ni, at ddibenion grantiau ac ariannu. Allwch chi lenwi eich ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal a'i hanfon yn ôl yn yr amlen bwrpasol cyn gynted ag y bo modd?

Fe welwch gopi o bamffled y llinell gymorth a'r poster rydym ni'n eu dosbarthu i hyrwyddo'r llinell gymorth a'r prosiect gyda'r newyddlen hon.

Rydym wedi llunio'r amserlen ar gyfer mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai a gofynnaf i chi edrych arno a rhoi gwybod os yw'r sesiynau hynny yn gyfleus i chi. Rwyf wedi ceisio cadw at yr un diwrnodau i bawb am 3 mis gan fod hyn yn bodloni gofynion y rhan fwyaf ohonoch.

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod pwy ydi pwy yn y sefydliad a'u swyddogaeth yn y darlun cyffredinol. Felly rwyf wedi cynnwys siart llif sy'n dangos y strwythur staffio a dyletswyddau pawb.

Fel gwirfoddolwr gyda Phrosiect Dyslecsia Cymru, efallai y byddwch chi'n dymuno cysylltu â'r Swyddfa Fudd-daliadau i roi gwybod iddynt eich bod yn gwneud gwaith gwirfoddol, os yw hynny'n berthnasol i chi. Nid oes rhaid i chi roi gwybod i ni yn PDC o'ch sefyllfa bersonol gan nad ydym ni'n rhoi cyngor budd-daliadau uniongyrchol, ond efallai y bydd rhai o'r llinellau ffôn cymorth am fudd-daliadau yn ddefnyddiol i chi, naill ai ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.

Yn y rhifyn hwn:

BUDDSODDWYR MEWN GWIRFODDOLWYR 2

RHAGLEN AILGYLCHU CETRIS 2

MARCHNATA A HYRWYDDO'R LLINELL GYMORTH FFÔN 3

PWARF SRIGINO AR GFYER TUDDEIDAAU DYSELCISG 3

CYFLEOEDD I WIRFODDOLWYR 4

DIGWYDDIADAU'R DYFODOL 4

GWIRFODDOLWYR YN DOD AT EI GILYDD 4

BUDDSODDWYR MEWN GWIRFODDOLWYR

Mae Prosiect Dyslecsia Cymru yn rhan o'r Cynllun Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ac mae'n ceisio cael ei achredu gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni angen arddangos bod gennym bolisïau, gweithdrefnau a safonau mewn grym ar gyfer pobl sy'n gwirfoddoli gyda ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Dangos ymrwymiad i gynnwys gwirfoddolwyr, a chydnabyddiaeth drwy'r sefydliad bod gwirfoddoli yn broses ddwy ffordd a bod y gwirfoddolwyr a PDC yn elwa o'r trefniant.
2. Dangos bod PDC yn ymrwymo adnoddau priodol i weithio gyda gwirfoddolwyr, megis arian, rheolaeth, amser staff a deunyddiau.
3. Dangos bod PDC yn agored i gynnwys gwirfoddolwyr sy'n adlewyrchu ar amrywiaeth y gymuned leol yn unol â'r amcanion a nodwyd, ac yn gweithredu i hwyluso hyn.
4. Dangos bod PDC yn datblygu swyddogaethau priodol ar gyfer gwirfoddolwyr yn unol â'i nodau a'i amcanion sy'n werthfawr i'r gwirfoddolwyr ac sy'n creu amgylchedd lle gallant ddatblygu.
5. Dangos bod PDC wedi ymrwymo i wneud yn siŵr, cyn belled ag y bo modd, bod gwirfoddolwyr yn cael eu diogelu rhag niwed corfforol, ariannol ac emosiynol sy'n deillio o wirfoddoli.
6. Dangos bod PDC wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau recriwtio teg, effeithiol a chyson ar gyfer pob darpar wirfoddolwr.
7. Dangos bod PDC yn gweithredu'n drylwyr wrth gael geirda a chynnal profion swyddogol sy'n gyson ac yn gyfartal ar gyfer pob gwirfoddolwr gan gofio natur y gwaith.
8. Dangos bod gweithdrefnau clir mewn grym ar gyfer cyflwyno gwirfoddolwyr newydd i'r sefydliad, ei waith, ei bolisïau, ei arferion a'r gweithwyr personél perthnasol.
9. Dangos bod pawb yn y sefydliad yn ymwybodol o'r angen i gydnabod gwaith gwirfoddolwyr.
10. Dangos bod PDC yn ystyried yr amrywiol anghenion o ran cefnogaeth sydd eu hangen ar wirfoddolwyr.

BUDDSODDWYR MEWN GWIRFODDOLWYR

Fel y gwelwch, mae'n rhestr gynhwysfawr o ddangosyddion, ac mae'n rhaid i ni eu bodloni er mwyn cael ein hachredu. Rydym ni'n credu bod llawer o'r rhain eisoes mewn grym ac rydym yn gweithio'n galed i fodloni pob un o'r gofynion. Rydym yn croesawu unrhyw adborth am sut rydych chi'n teimlo ein bod yn bodloni'r dangosyddion hyn, felly mae croeso i chi gysylltu â mi gyda'ch barn ac unrhyw awgrymiadau am y ffyrdd y gallwn wella ein gwasanaeth i chi fel gwirfoddolwr gyda PDC.

Bydd asesydd yn ymweld â ni ym mis Mawrth / Ebrill i asesu'r hyn sydd gennym mewn grym ac i wirio ein bod ni'n gwneud yr hyn rydym ni'n addo ei wneud. Bydd ef / hi eisiau siarad â rhai o'r gwirfoddolwyr, dros y ffôn mae'n debyg, i gael eu barn cyn cyrraedd penderfyniad. Mae hyn yn bwysig i ni fel sefydliad, felly bydd unrhyw gymorth allwch chi ei roi yn cael ei werthfawrogi.

RHAGLEN AILGYLCHU CETRIS

Rhowch eich cetris gwag a'ch hen ffonau symudol i Brosiect Dyslecsia Cymru i'n helpu ni i godi arian. Gallwn ailgylchu eich cetris argraffwyr gwag a'ch ffonau symudol a chodi arian ar gyfer Prosiect Dyslecsia Cymru.

Bydd pob cetrisen sy'n ein cyrraedd yn cael eu glanhau, eu golchi, eu llenwi, gwirio safon yr argraffu, gwirio ansawdd a'u gwerthu yn barod i'w defnyddio eto. Gellir adnewyddu ffonau symudol a'u gwerthu i wledydd datblygol i helpu eu rhwydweithiau cyfathrebu. Bydd y rhai nad oes modd eu defnyddio eto yn cael eu hailgylchu a'u taflu yn y modd cywir.

Anfonwch getris Hewlett *Packard, Lexmark a Canon BC01/02/05/06/20, BX2, BX3 YN UNIG* PEIDIWCH ag anfon cetris *Epsom a Laser.*
Os hoffech weld rhestr lawn o'r cetris a dderbynnir, ewch i:
www.recycled4charity.co.uk

DERBYNNIR POB FFÔN SYMUDOL MEWN UNRHYW GYFLWR.

MARCHNATA A HYRWYDDO'R LLINELL GYMORTH FFÔN

0808 1800 110

Mae PCD wedi dechrau marchnata a hyrwyddo'r llinell gymorth ffôn i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ac yn enwedig rhieni plant sydd â thueddiadau dyslecsig. Hyd yn hyn rydym wedi anfon posteri a phamffledi (gallwch weld enghreifftiau ohonynt gyda'r newyddlen hon, er gwybodaeth) i dros 70 o feddygfeydd ac rydym wedi cael adborth gan bobl sydd wedi'u gweld mewn meddygfeydd yng Nghaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

Ar 25 Chwefror, mae Rheolwyr Llyfrgelloedd Rhanbarthol y 22 Awdurdod yng Nghymru yn cynnal eu cyfarfod chwarterol yn Aberystwyth. Fe wnaethom geisio gael slot ar y rhaglen, ond yn anffodus nid oedd lle. Byddwn yn ceisio cael cyfle i roi cyflwyniad mewn un o'u cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo gwaith Prosiect Dyslecsia Cymru a'r Llinell Ffôn Gymorth. Fodd bynnag, fe wnaethant ofyn i ni anfon pecynnau a phosteri atynt i'w dosbarthu yn y cyfarfod er mwyn eu harddangos mewn llyfrgelloedd o amgylch Cymru. Pob blwyddyn, mae'r BBC yn gwahodd cynigion gan elusennau yng Nghymru a fyddai'n hoffi hyrwyddo eu gwaith drwy 'hysbyseb' broffesiynol i'w darlledu ar sianeli'r BBC. Mae Michael Davies, Prif Weithredwr PDC (swydd wirfoddol) wedi gwneud cynnig llwyddiannus am un o'r rhain a dylai'r gwaith ddechrau yn ddiweddarach eleni. Dylai hyn godi proffil yr elusen yn arw.

Rydym yn ystyried llawer o bethau eraill fel hysbysebu ar y radio, hysbysebu ac erthyglau mewn papurau newydd a dosbarthu taflenni. Fodd bynnag, mae'r rhain i gyd yn costio, felly mae angen eu hystyried yn ofalus cyn i ni ymrwymo i wneud unrhyw beth.

Os oes gan unrhyw un syniad a fyddai'n helpu i hyrwyddo'r llinell gymorth, yna rhowch wybod i mi ac fe wnawn ei ystyried yn ofalus.

PWARF SRIGINO AR GFYER TUDDEIDAAU DYSELCISG

Mae tri phecyn o brofion ar gyfer mesur tueddiadau Dyslecsig, un ar gyfer disgyblion ysgol iau, un ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd ac un ar gyfer oedolion. Mae pob prawf yn cynnwys nifer o dasgau ac mae rhai ohonynt yn cael eu hamseru. Pan fo'r tasgau'n cael eu cwblhau, ac yn cael eu sgorio, gellir dod o hyd i'r "cyniferydd risg" a llunnir adroddiad sy'n nodi'r meysydd risg ac yn nodi pa fath o gefnogaeth fyddai'n fwyaf perthnasol i'r unigolyn hwnnw.

Mae'r tasgau'n cynnwys:

Enwi cyflym	profi anawsterau darllen posib
Gosod gleiniau ar linyn	asesu cydweithrediad dwylo - llygaid
Darllen am un munud	ar gyfer darllen cyflym a chywir
Sefydlogrwydd osgo	sgiliau symud / cydbwysedd / rheolaeth llygaid
Segmentu ffonemig	gallu canfod odlau
Sillafu am 2 funud	prawf sillafu
Prawf rhif rhychwant am yn ôl	profi'r cof
Darllen darn o nonsens	gallu darllen geiriau nad ydynt erioed wedi'u gweld o'r blaen
Ysgrifennu am funud	mesur cyflymder ysgrifennu
Rhuglder ar lafar	faint o eiriau yn dechrau efo'r un llythyren mewn un munud
Rhuglder Semantig	yr un prawf ond gan ddefnyddio geiriau yn hytrach na llythrennau mewn un munud

OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN CAEL EICH HYFFORDDI I GYNNAL PRAWF SGRINIO? CYSYLLTWCH Â CLIVE AR 0808 1800 110

EVERYCLICK – CODI ARIAN

Mae Everyclick yn gadael i chi gael mynediad i ffyrdd effeithiol a defnyddiol i roi ar-lein i Brosiect Dyslecsia Cymru. Mae Everyclick yn ffordd hawdd o gynhyrchu incwm ychwanegol ar gyfer Prosiect Dyslecsia Cymru heb unrhyw gostau i chi. Mae defnyddwyr Everyclick yn creu arian mewn nifer o ffyrdd: chwilio, siopa, rhoi a noddi. Cesglir Rhodd Cymorth lle bo hynny'n berthnasol hefyd. Pob mis, mae Everyclick yn gwneud yn siŵr bod arian yn cael ei roi i elusennau penodol drwy'r Ymddiriedolaeth Elusennau.

Chwiliwch y we a chodi arian ar gyfer PROSIECT DYSLECSIA CYMRU. Cliciwch ar y ddolen gyswllt isod i gael mwy o wybodaeth:

http://www.everyclick.com/prosiect-dyslecsia-cymru---welsh-dyslexia-project/357881/0

CYFLEOEDD I WIRFODDOLWYR

Golygydd / cydlynydd y newyddlen gyffredinol bob chwarter
Golygydd / cydlynydd y newyddlen i ysgolion

OS OES GENNYCH CH DDIDDORDEB YN Y RHAIN, CYSYLLTWCH Â CLIVE.

Welsh Dyslexia Project
Prosiect Dyslecsia Cymru

PROSIECT DYSLECSIA CYMRU

TY PARC HOUSE
PARC TEIFI
ABERTEIFI
CEREDIGION
SA42 1EW

FFÔN 0808 1800 110
E-BOST VOLUNTEERING@WELSHDYSLEXIA.ORG

DIGWYDDIADAU'R DYFODOL

Gwersyll yr Urdd Llangrannog	16-18 Chwefror	Canolfan yr Urdd Llangrannog
Celf a Dyslecsia	6 Mawrth	Ysgol Tregaron
Celf a Dyslecsia	7 Mawrth	Ysgol Nant Y Cwm
Sesiwn Rhiant / plentyn	23 Mawrth	Ysgol Rhosnesni, Wrecsam

Cynadleddau bwriedig – dyddiadau i'w cadarnhau:

Cynhadledd Technoleg Cynorthwyol a Dyslecsia	Mehefin	Coleg y Drindod
Cynhadledd Gymraeg	Mai	Aberystwyth

Os hoffech chi fynychu unrhyw un o'r gweithdai neu gynadleddau hyn, neu os hoffech gynorthwyo gyda'r digwyddiadau, cysylltwch â Clive ar 0808 1800 110.

DIWRNOD I WIRFODDOLWYR DDOD AT EI GILYDD

Rydym ni'n bwriadu cynnal cwrs atgoffa, ynghyd â digwyddiad i wirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr ddod at ei gilydd, rhyw bryd yn ystod mis Ebrill neu fis Mai. Mae'n debyg mai yn ardal Castell-nedd / Aberteifi fydd hyn, a gobeithiwn y bydd y mwyafrif helaeth o'r gwirfoddolwyr yn gallu mynychu fel eich bod yn cael cyfle i roi wynebau i enwau a dod i adnabod eich cydweithwyr ym Mhrosiect Dyslecsia Cymru.

Efallai yr hoffech chi awgrymu lleoliad ar gyfer y digwyddiad a pha ddiwrnodau / dyddiadau sydd fwyaf cyfleus i chi. Dyddiad posib yw dydd Mercher, 6 Mai. Rhowch wybod i mi cyn gynted ag y bo modd os allwch chi fynychu'r digwyddiad fel y gallaf chwilio am leoliad addas. Hoffwn ddechrau'r digwyddiad am 10.30am gyda chinio tua 1 - 1.30pm.

DIWRNOD I WIRFODDOLWYR DDOD AT EI GILYDD

SESIWN HOLI AC ATEB GYDA CHINIO I DDILYN